Senedd Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
—
Welsh Parliament
Children, Young People and Education Committee

Dyddiad | Date: 14 Hydref 2020

Pwnc | Subject: **Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar hawliau plant yng Nghymru**

Annwyl gyfaill,

Ysgrifennaf atoch mewn perthynas ag ymchwiliad **Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd** i **hawliau plant yng Nghymru.**

Cyhoeddwyd ein hadroddiad ym mis Awst 2020 yn dilyn saib yn gynharach eleni i sicrhau y gallai'r holl adnoddau cyhoeddus angenrheidiol ganolbwyntio ar bandemig y coronafeirws. Rydym bellach wedi cael **ymateb** Llywodraeth Cymru i'r adroddiad hwn.

Dechreuodd y Pwyllgor ei ymchwiliad i hawliau plant ym mis Mehefin 2019. O ystyried faint o amser sydd wedi bod rhwng eich tystiolaeth lafar ddefnyddiol yn hydref 2019 a chyhoeddi ein hadroddiad yr haf hwn, hoffem ymgynghori â chi i lywio dadl yn y dyfodol yn Siambr y Senedd. Hoffem gael eich barn ar:

- Ymateb Llywodraeth Cymru i'n hargymhellion; ac
- unrhyw ddiweddariadau sylweddol sy'n berthnasol i'r adroddiad ers i'r Pwyllgor gymryd tystiolaeth.

Nawr yn fwy nag erioed, teimlwn fod rhaid inni sicrhau bod hawliau plant a phobl ifanc yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Rydym yn awyddus i gynnal dadl ar yr adroddiad cyn gynted â phosibl, ac felly rydym yn gwahodd eich barn ar ffurf ymateb ysgrifenedig heb fod yn hwy na 1500 gair. Nid oes angen ichi roi sylwadau ar bob argymhelliad oni bai fod materion penodol yr hoffech dynnu ein sylw atynt.

Er mwyn inni allu cynnal dadl yn y Cyfarfod Llawn cyn gynted â phosibl, byddem yn ddiolchgar o gael eich ymateb i'r llythyr hwn erbyn 5 Tachwedd 2020.

Yn gywir,

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPPIA@senedd.cymru
0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCYPE@senedd.wales
0300 200 6565



Lynne Neagle AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh